

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

10/12/15

Presennol: Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Edith Roberts, Dilys Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Ivora Jones, Alun Price, Carol Rowlands, John C Williams, Y Clerc, Lis Puw.

Ymddiheuriadau: Dorothei Evans, Islwyn Pritchard Jones, Dilwyn Morgan (Cyngorydd Gwynedd).

1. Croesawodd y Maer pawb i'r cyfarfod ac adroddodd ei fod wedi cael y pleser o gynrychioli'r Cyngor yng nghinio'r Llang Prydeinig ac yng nghyngerdd blynyddol Côr Godre'r Aran.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 5ed Tachwedd 2015.
5. **Adroddiad y Clerc:**
 - i. Mae'r gwrychoedd wedi eu tocio a golau wedi eu gosod ar y goeden wrth gerflun Tom Ellis.
 - ii. Cafwyd sicrwydd y gall y sawl sy'n ymweld â'r fynwent ddefnyddio'r maes parcio wrth Byd Mary Jones yn ystod tymor y gaeaf os ydy'r giât ar agor.
 - iii. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Grŵp Busnesau 7/12/15 a disgwylir eu hymateb i fater gosod camerâu cylch cyfyng yn y dref.
 - iv. Cafwyd sgwrs anffurfiol gyda Phenaethiaid y ddwy ysgol gynradd am gystadleuaeth llunio poster i rybuddio gyrrwyr am blant yn chwarae.
 - v. Rhoddir adroddiad o gyfarfod Ardal Un Llais Cymru yn y cyfarfod nesaf.
 - vi. Ni chafwyd ymateb i lythyr am agwedd anhyblyg warden traffig yn y dre yn ddiweddar, a chytunwyd i anfon i awgrymu nad oes angen warden traffig yn Y Bala yn ystod misoedd y gaeaf, yn arbennig ar adeg pan fo'r Cyngor Sir yn hybu prynu'n lleol trwy ddiddymu'r ffi parcio cyn y Nadolig.

6. Materion Cynllunio a Thrwyddedu:

- i. Cytunwyd i beidio ag anfon sylwadau ar gais Bargain Booze am drwydded i werthu alcohol o siop 47 Stryd Fawr gan fod trwydded ar yr adeilad eisoes.
- ii. Cytunwyd i beidio ag anfon sylwadau ar gais Stori, 101 Stryd Fawr am drwydded i werthu alcohol i'w yfed yn y siop rhwng 11.00am a 9.00pm gan nad oedd sylwadau'r Cyngor yn dod

o fewn y canllawiau ar gyfer cais am drwydded i werthu alcohol. Cytunwyd i dynnu sylw wrth ymateb y gall fod angen caniatâd cynllunio oherwydd newid defnydd o'r adeilad.

- iii. Cymeradwywyd cais NP5/53/L7BU i newidiadau allanol a mewnol i Uned 5 Adeiladau'r Aran, Stryd Fawr, Y Bala
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth fod caniatâd wedi ei roi i uwchraddio eiddo ym Mlaenddol, Y Bala.

7. Materion Cyllid: Cytunwyd i dalu cyflog y clerc ac anfonebau'r mis:

- i. Coed Nadolig i'r siopau a busnesau (£627)
- ii. edf am drydan ar goed y Stryd Fawr, Nadolig 2014 (£40.93)
- iii. Tystysgrifau i enillwyr cystadleuaeth addurno ffenest siop (£20)
- iv. Costau stampiau, papur, ac amlenni'r Clerc yn ystod 2015 (£34.85)

8. Gohebiaeth:

- i. Rhannwyd gwybodaeth am eiddo sydd ar gael ar rent yng Nghysgod y Coleg a Blaenddol.
- ii. Rhannwyd gwybodaeth am ymgynghoriad Comisiynydd yr Heddlu ac am gynllun Gwarchod y Gymdogaeth.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am waith i'w wneud ar y golau stryd yn Stryd y Fron , Bro Eryl a Chae Gadlas.

9. Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr/cydlynnydd a soniodd am gyfarfod a gynhaliwyd am ymgyrch Prynu'n Lleol, a chyfarfod am hybu busnesau newydd yng nghefn gwlad.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7/1/16